

Gweithio gyda phlant a'u teuluoedd



Mae Cafcass Cymru yn gosod plant wrth galon ei waith ac yn sicrhau bod ganddynt lais i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau, yn gwranddo arnyh nhw ac yn eu cyfleu i'r llys teulu, yn ogystal â gwneud argymhellion o'r hyn sydd o fudd iddyn nhw. Mae ymgymryd â gwaith uniongyrchol gyda phlant yn elfen graidd o ymarfer ac mae Cafcass Cymru wedi mabwysiadu dull cyfunol sy'n cynnwys cwrdd â phlant wyneb yn wyneb ac o bell.

Egwyddorion sy'n sail i'n dull gweithredu:

- Mae Cafcass Cymru wedi mabwysiadu dull cyfunol o weithio gyda phlant sy'n cynnwys cwrdd â phlant wyneb yn wyneb a defnyddio llwyfannau electronig fel FaceTime a Microsoft Teams. Mae Cafcass Cymru yn ceisio rhoi llais i blant a phobl ifanc o ran y ffordd y maen nhw'n cyfathrebu gyda ni.
- Mae'n arfer da ac yn ddisgwyliad y bydd o leiaf un cyfarfod wyneb yn wyneb gyda phlant yn ystod achos cyfraith gyhoeddus ac yn ystod achos cyfraith breifat lle mae Cafcass Cymru wedi cael gorchymyn i wneud gwaith pellach, fel cwblhau adroddiad Dadansoddiad Effaith Plant. Bydd ymarferwyr yn siarad gyda phlant a phobl ifanc am ble yr hoffent gwrdd. Os na cynhelir cyfarfod wyneb yn wyneb gyda phlentyn neu berson ifanc, byddwn yn sicrhau eu bod nhw'n deall y rhesymau dros hyn.
- Bydd ymarferwyr yn cyflwyno eu hunain ac yn egluro eu rôl i blant ar y pwynt cynharaf (naill ai'n bersonol neu o bell), ac yn trafod ac yn cytuno gyda nhw ar sut y byddan nhw'n ymgysylltu yn ystod yr achos. Gall hyn fod yn wahanol rhwng plant yn yr un teulu. Gellir defnyddio cyfathrebu o bell i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i blant a phobl ifanc am eu hachos lle mae ymarferwyr yn parhau i gymryd rhan.
- Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb gyda babanod a phlant iau yn darparu cyfleoedd ar gyfer arsylwi a / neu asesu deinameg perthynas, a all ychwanegu at ddadansoddiad yr ymarferydd o amgylchiadau unigryw'r plentyn.
- Os oes gan blentyn anghenion ychwanegol o ran iechyd, anabledd neu gyfathrebu, byddwn bob amser yn cynllunio ein hymgysylltiad gyda nhw mewn ffordd sy'n sicrhau bod ganddyn nhw gyfle cyfartal i gyfleu eu dymuniadau a'u teimladau. Gallai hyn gynnwys ymarferwyr yn siarad â'r rhai sy'n adnabod y person ifanc orau i nodi sut y gallan nhw gyfathrebu'n effeithiol gyda nhw.
- Gellir cynnal sgysiau gyda phlant a phobl ifanc am eu hamgylchiadau, eu dymuniadau a'u teimladau mewn un drafodaeth gynhwysfawr neu dros nifer o sgysiau byrrach a all fod yn gyfuniad o gyfarfodydd wyneb yn wyneb ac o bell.
- Byddwn yn ymdrechu i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn gallu siarad â ni mewn lleoliad sy'n eu galluogi nhw i siarad yn rhydd heb unrhyw ddylanwad neu bwysau gormodol. Rydym yn cydnabod efallai na fydd rhai plant yn teimlo'n ddiogel yn siarad â ni o bell, tra bod eraill o bosibl yn teimlo bod cyfarfod wyneb yn wyneb yn fwy o straen.
- Mae ymarferwyr yn cynnal eu disgresiwn proffesiynol wrth wneud penderfyniadau rheoli achosion. Pan wneir y penderfyniad i beidio â chyfarfod wyneb yn wyneb mewn ymgynghoriad â phlentyn, caiff y rhesymeg dros y penderfyniad hwn ei chofnodi'n glir.